

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD 09/03/2020 / MINUTES OF
MEETING HELD ON 09/03/2020**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs Edna Jones, Is-gadeirydd Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Mrs A Williams, Ms M E Evans, Mrs C Summers a Mr Bob Parry.	PRESENT: Chairman Mrs Edna Jones, Vice-chairman Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Mrs A Williams, Ms M E Evans, Mrs C Summers and Mr Bob Parry.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies
Derbyniwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb oddi wrth Mr G Williams.	Apology for his absence was received from Mr G Williams,
2. Datganiadau Diddordeb.	2. Declarations of Interest.
Dim.	None.
3. Cadarnhau cofnodion 03/02/2020.	3. Ratify minutes 03/02/2020.
Cadarnhawyd a derbyniwyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3/2/2020. Mrs Sharon Jones yn cynnig a Mrs Catherine Parry yn eilio.	The minutes of the meeting held on 3/2/2020 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs Sharon Jones, seconded by Mrs Catherine Parry.
Cyflwyniad gan Mark Gahan ar arian lottery i'w wario'n lleol. Cafwyd esboniad gan Mr Gahan ar ei rol yn cydweithio gyda chymunedau i ymgeisio am grant loteri. Dywedodd y byddai'n cysylltu â sefydliadau lleol i drefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn gweld a oedd diddordeb i ymgeisio am grant. Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i Mr Gahan am y cyflwyniad.	Presentation by Mark Gahan on lottery monies to be spent locally. Mr Gahan explained his role as a co-ordinator working with communities to apply for lottery grants. He said that he would be contacting local organisations to arrange a public meeting to find out if there was an interest in applying for grants. The Chairman thanked Mr Gahan for his presentation.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Prydles Cae Peldroed Gwalchmai. Parhau i ddisgwyl am brydles newydd oddi wrth y Cyngor Sir.	(a) Lease on Gwalchmai Football Field . Still waiting for a new lease from the County Council.
(b) Mwd ar y lôn rhwng Pendref a Thŷ Newydd. Derbyniwyd cadarnhad fod y ffordd wedi'i glanhau.	(b) Mud on road between Pendref and Tŷ Newydd. Confirmation received that the road had been cleaned.
(c) Tipio anghyfreithlon yn Lôn Felin a'r cae gerllaw. Dywedodd y Cynghorydd Bob Parry y byddai'r tipio yn cael ei glirio ond na fydd y Cyngor Sir yn clirio oddi ar dir preifat.	(c) Fly tipping in Lôn Felin and in the field nearby. Councillor Bob Parry stated that the fly tipping would be cleared, but that the County Council would not clear any fly tipping on private land.
(d) Rhoddion i fudiadau lleol. Derbyniwyd diolch oddi wrth Eglwys St. Morhaearn, Ysgol y Ffridd ac Ysgol Sul Moriah,.	(d) Donations to local organisations. Letters of thanks received from St Morhaearn Church, Ysgol y Ffridd and Moriah Chapel Sunday School.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(i) Un Llais Cymru:	(i) One Voice Wales:

(a) Lleoliadau lleol ar gyfer natur. Derbyn er gwybodaeth.	(a) Local Places for Nature. For information.
(b) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Atodol drafft – yr Egwyddorion yn ymwneud ag Ad-dalu Costau Gofal. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(b) Independent Remuneration Panel for Wales – draft Supplementary Report – the Principles relating to the Reimbursement of Costs of Care. Discussed and kept for information.
(c) Cadwch Cymru'n Daclus . Gwanwyn Glân Cymru. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(c) Keep Wales Tidy – Spring Clean Cymru. Discussed and kept for information
(d) Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol – 26 Mawrth 2020 yn Adeilad Hafod a Hendre, Maes Sioe Amaethyddol Cymru. Derbyn er gwybodaeth.	(d) Innovative Practice Annual Awards Ceremony 26 March 2020 at Hafod a Hendre Building, Royal Welsh Showground. For information.
(e) Swyddi Gwag – Swyddog Polisi a Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Derbyn er gwybodaeth.	(e) John vacancies – Policy Officer and Development Office for Mid and West Wales. For information.
(f) Digwyddiad ar y cyd rhwng Unllais Cymru a SLCC 20 Mai 2020 yn y Village Hotel, St David's Park, Ewloe Neb yn rhydd i fynd i'r digwyddiad.	(f) One Voice Wales/SLCC Joint Event 20 May 2020 at the Village Hotel, St.David's Park, Ewloe. No one able to attend the event.
(g) Pwyllgor Cynhorau Lleol Mwy. Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 5 Chwefror 2020. Derbyn er gwybodaeth.	(g) Larger Local Councils Committee. Minute of meeting held on 5 February 2020. For information.
(ii) Cyngor Sir Ynys Môn.	(i) Isle of Anglesey County Council
(a) Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith. Diweddariad mis Chwefror i'w gweld ar www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Blaen-Raglen-Waith-y-Pwyllgor-Gwaith.aspx . Gwybodaeth am Bwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor i'w weld ar www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Sgriwtini-Blaen-Raglen-Waith-Pwyllgorau-Sgriwtini.aspx . Derbyn er gwybodaeth.	(a) Executive's forward work programme – February 2020 update to be seen on www.ynysmon.gov.uk/cy/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Blaen-Raglen-Waith-y-Pwyllgor-Gwaith.aspx . Information on the Council's Scrutiny Committees to be found on www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Sgriwtini-Blaen-Raglen-Waith-Pwyllgorau-Sgriwtini.aspx . For information.
(b) Fforwm Cyswllt Cynhorau Tref a Chymuned - cofnodion y cyfarfod diwethaf a dyddiad y cyfarfod nesaf sef 30/4/2020 am 7pm yn Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch. Derbyn er gwybodaeth.	(b) Town and Community Councils Liaison Forum meeting – copy of minutes of last meeting and date for next meeting, which is 30/4/2020 at Ysgol Santes Dwynwen, Newborough. For information.
(c) Anwen Owen, Rheolwr Refeniw. Awdurdodau Praeseptio. Rhoi gwybod y byddai enw'r Cyngor Cymuned priodol yn ymddangos ar y bil treth.	(c) Anwen Owen, Revenues Manager. Praecapting Authorities. Informing that the name of the respective Community Council would be shown on the rates bill.
(d) Tîm AHNE Cyngor Sir Ynys Môn. Prosiect peiriant bagiau baw cŵn.	(d) Isle of Anglesey County Council's AONB Team. Dog bag dispenser project.

Trafodwyd a phenderfynwyd i'r Clerc lenwi'r holiadur a gofyn am dri pheiriant ar gyfer y pentref.	Discussed and it was decided that the Clerk should complete the questionnaire and request three dispensers for the village.
(iii) Medrwn Môn.	(iii) Medrwn Môn.
(a) Diweddariad ar Raglen Cynllunio Lle. Penderfynwyd rhoi gwahoddiad i'r swyddogion i gyfarfod nesaf y Cyngor.	(a) Update on Place Shaping Programme. It was decided to invite the officers to the next meeting of the Council.
(iv) Yr Arolygaeth Cynllunio. Penderfyniad ar yr Apêl ar gais cynllunio ar dir yn Ty'n Llidiart Bach. Yr Apêl wedi' gwrthod.	(iv) The Planning Inspectorate. Planning Appeal Decision on land at Ty'n Llidiart Bach. The appeal had been refused..
(v) EON - Contract trydan y cloc yn dod i ben. Prisiau gorau newydd fydd Costau sefydlog o 71.34c y dydd, a phris uned o 15.20c y kWh. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc adnewyddu'r contract am gyfnod o 3 blynedd.	(v) EON. Contract for Electricity supply to the clock coming to an end. Best price available is Standing charge 71.34p per day and Unit rate of 15.20p per kWh. It was decided to request the Clerk to renew the contract for a period of 3 years.
(vi) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Adroddiad Blynnyddol. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(vi) Independent Remuneration Panel for Wales. Annual Report. Discussed and accepted for information.
(vii) Swyddfa Archwilio Cymru.	(vii) Wales Audit Office.
(a) Datganiad i'r Wasg. Er gwybodaeth.	(a) Press Release. For information.
(b) Ymgynghoriad ar Drefniadau Archwilio yn y dyfodol ar gyfer Cyngorau Cymunedol yng Nghymru. Trafodwyd a derbyniwyd y cynnwys.	(b) Consultation on Future Audit Arrangements for Community Councils in Wales. Discussed and the contents were accepted.
(viii) Archwiliad Mewnol. Mr Alun Foulkes yn cynnig ei wasanaeth eto eleni ar gost o £100.00. Trafodwyd a phenderfynwyd penodi Mr Foulkes yn archwilydd mewnol i'r Cyngor a derbyniwyd y gost o £100.00. Gofynnwyd I'r Clerc gysylltu â Mr Foulkes I'w gynghori am y penderfyniad.	(viii) Internal Audit. Mr Alun Foulkes offering his services again this year, at a cost of £100.00. Discussed and it was decided to appoint Mr Foulkes as the Internal Auditor for the Council and the cost of £100.00 was accepted. The Clerk was requested to inform Mr Foulkes of the decision.
(ix) Cyngor Iechyd Cymuned. Datganiad i'r Wasg. Derbyn er gwybodaeth.	(ix) Community Health Council. Press Release. For information.
(x) Esgob Bangor. Gwahoddiad i wasanaeth ym maes Sioe Môn am	(x) Bishop of Bangor. Invitation to a service to be held at 10.30am at Anglesey

10.30am 31 Mai 2020 i ddathlu canmlwyddiant yr Eglwys yng Nghymru. Derbyn er gwybodaeth.	Showground on 31 May 2020 to celebrate the centenary of the Church in Wales. For information.
(xi) Cais am gyfraniad oddi wrth Hosbis Dewi Sant ac Elusen Ambiwylans Awyr Cymru. Penderfynu peidio rhoi cyfraniadau.	(xi) Request for donation from St David's Hospice and Wales Air Ambulance Charity. It was decided not to give any donations.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
Taliadau fel a ganlyn: Aelodaeth Un Llais Cymru £146.00; Mr Neville Williams am Gynnal a chadw'r Cloc £300.00; Plaid yr Henoed £110.00 am logi'r Neuadd i gynnal 11 cyfarfod; Cyflog y Clerc £726.00 ynghyd a £23.45 cost stampiau o'r 1 Ionawr 2020 - 31 Mawrth 2020; HMRC - PAYE ar gyflog y Clerc £181.50. Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r anfonebau.	Payments as follows: Membership of One Voice Wales £146.00; Mr Neville Williams for maintaining the clock £300.00; Plaid yr Henoed for hiring hall to conduct 11 meetings £110.00; Clerk's salary £726.00 plus £23.45 Cost of postage stamps from 1 January 2020 to 31 March 2020; HMRC – PAYE on Clerk's salary £181.50. Permission given to the Clerk to pay the invoices.
7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd. Daeth y Clerc i sylw'r Cyngor bod contract J B Joyce am gynnal y cloc wedi dod i ben. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r cwmni i gael pris am gontract newydd.	7. Any other matter at the Chairman's discretion. The Clerk brought to the attention of the Council that J B Joyce's contract for servicing the clock had come to an end. The Clerk was requested to contact the company to ask for the cost of a new contract.
8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 6 Ebrill 2020 am 7pm yn Neuadd yr Henoed.	8. Fix a date for the next meeting. The next meeting will be held on Monday 6 April 2020 at 7pm at the Pensioners' Hall.